YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LI. EBRILL, 1951. RHIF 4.

Yr Hen Gapel a'r Hen Dy Cwrdd.

(Araith y Dr. IORWERTH PEATE).

NID wyf i yma heddiw i draethu dim ar fanylion hanes yr Hen Dŷ Cwrdd hwn nac i nodi arbenigrwydd ei gyfraniad i hanes lleol Aberdâr. Y mae eraill yma a all wneuthur hynny yn llawer gwell na myfi. Ond yr wyf yn falch o gael bod yma i dystiolaethu i gyfraniad eithriadol yr Hen Dŷ Cwrdd hwn a phob un tebyg iddo yng Nghymru i wareiddiad ein cenedl. Annibynnwr wyf i, ac fe wyddoch na pherthyn i ni ddogma gyffredinol. Yn wir, ped eid ati i roddi label arnaf, yn unig ar sail credo ddiwinyddol, yna byddwn innau, gydag un arall o blant Hen Gapel Llan-bryn-Mair, sef yr Ariad Dr. Abraham Rees, yn dawel a bodlon yn eich corlan chwi.

Yr Hen Gapel a'r Hen Dŷ Cwrdd : safant tros yr un argyhoeddiad a'r un delfryd. Cyffelyb ysguboriau ydynt i'r un cynhaeaf, a'u gwerin yn arfer yr un offer, ' heb Fair, heb sallwyr, heb ganhwyllau gwêr, heb ddim ' ond golau Rheswm a Goddefgarwch a Chariad i gywain eu Cymru i Grist. Yr wyf yma felly heddiw fel un o blant yr Hen Gapel i dalu gwrogaeth i dystiolaeth olau yr Hen Dŷ Cwrdd.

Pa beth yw'r dystiolaeth honno ? Diau y gŵyr llawer ohonoch yn well na myfi am Ragymadrodd yr Undodiaid Pwylaidd i'w Catecism yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg : ' Er ein bod yn ffurfio Catechism, nid ydym yn gorchymyn dim i neb : er ein bod yn datgan ein barn ni, ni ormeswn ni ar neb. Bydded i bob dyn fwynhau rhyddid ei farn ef ei hun mewn crefydd. Pwy ydym ni i ymdrechu i fygu a diffodd tân yr Ysbryd Glân yn y sawl y gwelodd Duw yn dda ei gynnau ? ' Dyma sail y dystiolaeth Undodaidd bob amser ym mhob gwlad, ac y mae yn y geiriau hyn holl nodau'r wir Gristnogaeth. Ebr y diweddar Brifathro Thomas Rees, Annibynnwr y gŵyr pobl Aberdâr yn dda amdano : ' Glynant (hwy'r

Undodiaid) yn gadarn wrth arglwyddiaeth foesol (Crist) ac am hynny hawliant ryddid llawn i bob dyn i roddi ufudd-dod syml i'r Arglwydd Iesu. . . . Nid aeth eu cenadwri yn ofer. Safasent gyda'r blaenaf yn erbyn pob gormes gwladol, ac o blaid rhyddid a chydraddoldeb oddi ar law'r wladwriaeth. Ymdrechant yn fwy na neb dros ryddid personol y person unigol, a hyn fu eu cenadwri arbennig fel Ymneilltuwyr.' Pwy a wâd yr angen am yr ymdrech honno heddiw mewn dyddiau pan anghofir yn gyffredinol trwy'r byd hawl y person unigol mewn cymdeithas rydd ?

Dywed Dr. Parry-Williams yn un o'i sonedau mwyaf adnabyddus na ddylid rhannu dynion yn ddrwg a da yn hen ddull y *Rhodd Mam*, ond yn hytrach yn rhai sy'n ' gweld y golau nad yw byth ar goll ' a'r ' lleill yn ddeillion oll.' Y mae'r rhaniad hwn yn un tragwyddol ei arwyddocâd er bod y ffurf arno yn amrywio o oes i oes. Yn fy marn i, y mae yn gymwys iawn yn ein hoes ni yn y ffurf a roes y bardd arno. Y mae'r byd heddiw wedi meddwi ar awdurdodaeth ac y mae dynion yn ddall i'r ' golau nad yw byth ar goll ' ; ceisiant ei weld trwy offeiriad a swyddog, trwy gyfundrefn eglwys a system gwladwriaeth. A throes y cyfundrefnau yn fwgwd effeithiol i'w dallu. Rhinwedd yr Undodwr yw iddo ymwrthod ag offeiriadaeth y mwgwd, gan edrych ar y Goleuni â'i lygaid ef ei hun, a chan hawlio'r un fraint i'w gyd-ddynion, fel y gwelont hwythau'r gwirionedd yn eu ffordd hwy eu hunain.

Yn anffodus, y mae'r goddefgarwch hwn yn beth eithriadol heddiw. Clywn lawer am ddiffyg goddefgarwch yn Rwsia ac am garchar a *concentration camp* y tu ôl i'r ' llen haearn.' Eithr nid yno'n unig y maent, ysywaeth. Ychydig a glywn am dynged gwŷr fel Robert Michener, yr hogyn pedair ar bymtheg oed o Grynwr yn Kansas yn yr Unol Daleithiau, a ddedfrydwyd i ddeng mlynedd o garchar am wrthod ymuno â'r fyddin Americanaidd oherwydd ei ddaliadau crefyddol fel Crynwr ; neu am Donald Koch o Los Angeles, Undodwr Americanaidd, a gafodd bedair blynedd o garchar am yr un rheswm. ' As a patriotic American with a strong belief in the democratic principles and ideals it stands for, my duty to my country,' ebr Koch, ' is meaningless unless it means to accept social responsibility, to search unceasingly for truth, and then to do everything I can toward maintaining in American affairs a high moral conduct compatible with these ideals. As a member of the American Unitarian Church, not to do so would be to violate the very essence of my religious convictions. To allow my ethical judgements to evaporate under duress, or to repress them in the interests of personal expediency is to make a mockery of all pretensions to such convictions.' Dyna'r dystiolaeth Undodaidd yn ei gogoniant yn hyglyw yn yr ugeinfed ganrif y tu ôl i farrau heyrn carchar gwlad ' rydd ' America.

Yn erbyn y dystiolaeth hon y mae holl dywysogaethau'r byd hwn, yn y gorllewin fel yn y dwyrain. Y mae'r byd crwn dan ormes yr awdurdodaeth newydd. Nid 'llen haearn' yn rhannu'r byd yn ddau yw'r ffigur cywir, ond yn hytrach niwl trwchus anoddefgarwch ac afreswm sy'n disgyn yn llen heddiw tros y gwerthoedd tragwyddol trwy'r holl fyd. Yn y niwl hwnnw, y dotalitariaeth hon, yr ydym yn ddeillion oll onid oes gennym y teimlad ynom o annibyniaeth ysbrydol sydd yn arfogi'r dyn unigol i sefyll yn unig yn erbyn yr holl fyd. Y dyn hwnnw yn unig sy'n 'gweld y golau nad yw byth ar goll yng nghors y byd,' a rhinwedd traddodiad yr Hen Dŷ Cwrdd yw ei fod wedi cynnau'r golau hwnnw a'i roddi yng nghalonnau gwŷr a gwragedd i lewyrchu yn ein tywyllwch. Ni'm distewir byth rhag dywedyd mai gwir arweinwyr crefyddol Cymru a greodd y traddodiad hwn, ac ni chedwir mohono'n fyw heddiw, yn nydd y gwladwriaethau hollalluog, ond i'r graddau yr ydym ni fel Cymry yn sylfaenu ein buchedd ym myd busnes ac yn y byd cymdeithasol ar egwyddorion crefydd Crist. Yr unig wrthglawdd rhag totalitariaeth o bob math yw'r bywyd Cristnogol—y bywyd, sylwer, nid dogma na chredo—a hwnnw wedi'i sefydlu ar Feddwl ac ar Reswm ac ar Gariad.

Y mae'r dasg o wneuthur hyn yn dasg barhaol, tasg y bu ffigurau amlwg y diadelloedd Undodaidd yn wir nodedig. Ond prin efallai fod y gair 'diadell' yn air hapus yn y cysylltiad hwn, canys un o nodweddion defaid yw dilyn ei gilydd yn gwbl ddidaro. Eithr nid dilyn yn ddall yw nodwedd y sawl sy'n adeiladu ei athroniaeth ar Reswm a'r Meddwl.

Goddefgarwch. Oni bu cynifer ohonom yn anoddefgar yn ei enw? Dyma'r peth prin na ellir adeiladu'r Ddinas Santaidd hebddo, a hwn yn anad unpeth yw carreg sylfaen Undodiaeth. Dywedais eisoes mewn lle arall mai hwn hefyd yw'r peth byw sy'n diflannu o bob congl o'r byd heddiw, goddefgarwch, addfwynder, ysbryd cariad, bod 'yn dirion wrth bawb, yn athrawus, yn ddioddefgar, mewn addfwynder yn dysgu'r rhai gwrthwynebus.' Parhad goddefgarwch fel elfen gymdeithasol, a gwleidyddol, a chrefyddol sy'n debyg o setlo problem democratiaeth a holl ddyfodol gwareiddiad dyn. Ac y mae ei barhad yn dibynnu ar ei feithrin trwy'r meddwl a'r rheswm. Eich traddodiad chwi a minnau yw'r unig arfogaeth effeithiol yn erbyn afreswm ac awdurdodaeth. Unig sylfaen y byd newydd fydd ein gallu ni fel Cristnogion i greu unigolion o ysbryd annibynnol, rhydd eu meddwl na byddant yn fodlon derbyn safbwynt y dorf heb ei brofi. Nid trwy arfau materol y sicrhawn y dyfodol; nid trwy lu ac nid trwy nerth, ond trwy oddef y cyfeiliornus hyd at Groes, 'mewn addfwynder yn dysgu'r rhai gwrthwynebus.' Arfogaeth y meddwl a'r ysbryd yn unig a all

achub y byd. Ac onid dyna neges traddodiad yr Hen Dŷ Cwrdd a'r Hen Gapel? Nid ennilla cleddyf a bom unrhyw frwydr i ddemocratiaeth, a neges y traddodiad y safwn trosto yma heddiw yw mai'r unig ffordd i amddiffyn democratiaeth yw trwy ei byw; wrth ymladd i'w hamddiffyn, hi yw'r cyntaf o'r lladdedigion. Chwi gofiwch awydd y Barnwr Jeffreys am fflangellu Richard Baxter. Yng ngeiriau eich hanesydd chwi, Raymond Holt: 'The newer school of historians may whitewash Judge Jeffreys . . . but even the blindest men of the seventeenth century had no doubt about the relative spiritual worth of Judge Jeffreys and Richard Baxter.' Ein dyletswydd ni yw defnyddio arfau Baxter mewn byd sy'n credu yn null Jeffreys.

Yn erbyn y dull hwnnw y safodd y cynulleidfaoedd Undodaidd yn gyson. Chwi gofiwch un o reolau Cymdeithas Cwm-ann, er enghraifft, sef 'na bydd i farn neu opiniwn crefyddol neb ei rwystro i fod yn aelod o'r gymdeithas hon.' Nid gwŷr cyntefig oedd y gwladwyr a allai feddwl ac ymresymu a gweithredu'n gymdeithasol yn y dull hwn. Nid 'smotyn du' fel y clywais ei ddisgrifio cyn hyn, oedd dyffryn Teifi a chartref Undodiaeth yng ngorllewin Cymru. Yn hytrach dyma arloeswyr y wir ddemocratiaeth y mae gwerinoedd y byd yn dal i ymbalfalu amdani hyd ein dydd ni. Fel y dywedodd yr Athro G. J. Williams, 'nid oedd ddosbarth o ddynion mwy goleuedig yng Nghymru na'r gwladwyr a dyrrai i wrando ar Jenkin Jones a Dafydd Llwyd a Dafydd Dafis i hen gapel Llwyn-rhyd-owen.' Eu hegwyddorion hwy a'u tebyg a gyfrannodd fwyaf at draddodiad radicalaidd goleuedig yng Nghymru, traddodiad o oddefgarwch, o urddas dyn fel dyn, o werth personol dynion unigol yn gweithredu ar egwyddorion y Bregeth ar y Mynydd.

Oherwydd fy mod yn credu yn y gwerthoedd y safasant hwy trostynt ac yn y werin y rhoesant hwy urddas arni, yr wyf i yma heddiw. Ar sail y traddodiad hwn, traddodiad Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr a Hen Gapel Llan-bryn-Mair, y mae'n bosibl i Gymru wneud cyfraniad arbennig at greu cymdeithas gariadlon a democrataidd. Am fy mod yn credu hyn y talaf wrogaeth i dystiolaeth y Tŷ hwn am ddau can mlynedd ac yr erfyniaf am barhad tystiolaeth debyg mewn dyddiau o wallgofrwydd byd-eang. Syniadau traddodiadol, arferion hen, rhagfarnau cymdeithasol, parchusrwydd eglwysig—tuedd y pethau hyn oll yw parlysu dynion a rhoddi gwerth ar gelwydd. Parhawn i ddatgan y gwirionedd fel y gwelwn ef gan ymdrechu'n barhaus at gymdeithas lle y bydd dynion yn werthfawr fel personau, cymdeithas rydd a esyd werth ar reswm a deall ac yn arbennig ar gariad. Ni allaf yn well na gorffen â geiriau Gwilym Marles:

I ddyn ni roddwyd meddwl i blygu'n llwfr i'r llawr
O flaen ystranciau golud a rhodres munud awr ;
Mae ganddo'n hytrach blygu ger mawredd Duw pob gwir,
Yr hwn mae dydd ei farnau yn dragwyddoldeb hir.
Aiff heibio heddiw dywyll, mae hyfryd wawr ger llaw,
I berchen glân gydwybod un arswyd byth ni ddaw;
A leddir, byth nis lleddir ag arfau trais y dydd,
Yr unig angau i'w ofni a ddaw o wendid ffydd.

Dathlu Dau Canmlwyddiant yr Hen Dy Cwrdd.

YFARN gyffredin yw na welwyd cystal cyfarfodydd dathlu yn y Cwm erioed ac fe gadwyd yr awyrgylch briodol a'r safon o'r dechrau i'r diwedd. Gwelwyd ardal gyfan o bob plaid a chredo yn talu teyrnged i gyfraniad yr Hen Dŷ Cwrdd yn ystod ei oes faith ac enwogion ein cenedl yn rhoi sêl ar y deyrnged honno.

Dechreuwyd gyda chyfarfodydd pregethu dydd Sul y Pasg, a'r Parchn. T. Oswald Williams a Simon Jones yn pregethu i gynulleidfaoedd da. Mewn pregethau grymus talodd y ddau deyrnged i ddiwydrwydd a menter y tadau y gwŷr a addolodd Dduw drwy ddewis byw yn ddewr. Daeth y Gymanfa Ganu dydd Llun â chyfeillion o leoedd cyn belled â'r Smotyn Du a Llundain a gosgordd Trebanos yn gofalu fod y lle dan sang hyd yn oed yng nghwrdd y bore. Ysgwn i, a oes unrhyw enwad arall yng Nghymru yn cael y fath ffyddlondeb â hyn i'w cyrddau arbennig, ac o dro i dro rhaid sylwi mai'r un wynebau a welwn. Diolch amdanynt ! Dau o ffyddloniaid yr Hen Dŷ Cwrdd oedd wrth y llyw, W. Jones, A.L.C.M. wrth yr offeryn, a John Thomas (Peter Pan yr enwad meddai W. W. Price !) yn arwain. Gafaelodd y canu ar unwaith a'r emynau, hen a newydd, yn atseinio drwy'r hen deml. Isaac Hopkin, organydd Trebanos, oedd llywydd y bore, a phwy teilyngach na'r gŵr a ymroes i ganiadaeth ein cysegr ers pan oedd yn hogyn. Siarsodd ni i gofio am delyn orau'r byd—y llais, a gofynnodd yn ddwys iawn ar y diwedd yng ngeiriau'r hen emyn,

"Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd ?
Pwy fydd yma'n dyblu'r gân ?
Pwy fydd yma yn cyfeilio
Hen alawon Gwalia Lân ?"

Ie pwy ?

Erbyn y prynhawn 'roedd pethau'n gwresogi a'r anthemau'n canu'n gadarn bellach. Yr oedd profiad hir John Thomas fel arweinydd canu yn dangos ei ôl yn ei ddeheurwydd a'i gynghorion a chlywais amryw yn sôn amdano fel arweinydd delfrydol. Cyflwynodd y Parch. Jacob Davies lywydd y prynhawn fel un oedd yn ennill ei lle am amryw o resymau. Merch i un o ffyddloniaid yr Hen Dŷ Cwrdd, Joseph Jenkins, Llywydd y Gymdeithas a gwraig a gyflawnodd wasanaeth mawr i'r mudiad. Atgofion oedd ei phrif dant a'r rheiny'n felys ac amrywiol tuhwnt. Ar ddiwedd yr oedfa gwelwn ddegau o'r hen gyfoedion yn tyrru amdani. Uchafbwynt cwrdd yr hwyr oedd canu'r emynau coffa, un i Henry Morgan a'r llall i E. R. Dennis a'r ddwy dôn newydd yn rhoi teimlad llawn y cofio inni. Tro D. T. Williams oedd llywyddu cwrdd y nos a gwnaeth yntau ei waith yn dda mewn araith bwrpasol. Ef oedd ysgrifennydd y dathlu a theyrnged i'w waith da oedd trefnusrwydd y cyrddau drwyddi draw. Ni anghofiodd neb ac ni flinai ar atgofio pobl am y Cyrddau Mawr. Gall ymfalchïo yn ei waith erbyn a mynd yn ôl i drefnu gwaith y Co-op unwaith eto ! Y mae ein diolch i'r rhai a fu'n gofalu am ddefosiwn y Gymanfa hefyd ; gosodasant arddeliad ar ddechrau pob cyfarfod : Miss Mary Williams o Drebanos y bore, Mr. Basil Hopkin (myfyriwr), y prynhawn a'r Parch. E. O. Jenkins yn yr hwyr. Cafwyd eitemau diddorol gan y canlynol yn ystod y dydd : Nansi Evans, Laurence Bowen (y ddau o Drebanos) a Joyce Ulyet o'r Cefn. Cymanfa dda yn ddiau.

Daeth dydd Mawrth yn ei dro a'r gobeithion a'r ofnau yn ymaflyd codwm, eithr tywynnodd yr heulwen wedi'r glaw a gwelwyd y Tŷ Cwrdd a'r Ysgoldy yn llawn hyd y fil ymhell cyn pryd. Siom oedd clywed y Llywydd, y Parch. D. Jacob Davies yn cyhoeddi nad oedd Dr. R. T. Jenkins yn bresennol, ond 'roedd cewri'n aros. Dechreuwyd y cwrdd dathlu gan y Parch. Aerwyn Jones (B), Cwmdâr, gŵr a fu'n gweinidogaethu'n dyner am dros 40 mlynedd yn y fro. Yn ei tro cafwyd areithiau gafaelgar gan Dr. Iorwerth Peate, Sain Ffagan ; Y Prifathro J. D. Jones, Yr Athro Gruffydd John Williams a'r Parch. Simon Jones yn cloi gyda phwyslais ar gyfraniad y cymdeithasau bach i ddiwylliant byd. Yr oedd manteision o berthyn i enwad bychan, meddai ; rhaid i'r gŵr a berthyn i'r lleiafrif fod yn barod i roi rheswm dros ei ffydd ac yr oedd dadlau yn gwneud dyn yn feddyliwr. Bu Undoddiaeth yn gweithredu fel *Opposition* i Uniongrededd, yn swmbwl yn y cnawd. Y mae'r *Opposition* yn iechyd i'r Senedd ac ni welodd Duw yn dda i symud y swmbwl o gorff yr Apostol Paul. Ceir areithiau'r lleill yn yr YMOFYNNYDD pan ddônt i law, ac nid oes angen dweud gair am ddatganiad pwysig Dr. Peate a gyhoeddir yn y rhifyn hwn.

Dilynwyd y prif siaradwyr gan y gwahoddedigion : y Cynghorwr James Williams a dalodd deyrnged uchel i Mr. Dennis, yr Uwch-Gwnstabl Spencer Bird a ddeuai, meddai, i roi diolch am bob bendith gymdeithasol ac ysbrydol a lifodd i Aberdâr drwy ddrysau'r Hen Dŷ Cwrdd. Yr olaf oedd Mr. D. Emlyn Thomas, A.S., yntau'n aelod o gapel cyfagos a'i deyrnged yn gynnes i'r Hen Dŷ Cwrdd am roi lle i annibyniaeth meddwl a goddefgarwch. Ar ran Eglwysi'r fro rhoddwyd bendith ar y cyfan, mewn gweddi gan y Parch. Ifor Parry, M.A., Siloa. O'r dechrau i'r diwedd bu'r siarad yn glos heb un munud wasgaredig ; yr oedd pob un a'i faes ei hun, yn union fel petai'r siaradwyr wedi ymgynghori ymlaen llaw. Ac ar derfyn cwrdd hir nid oedd neb wedi blino.

Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas, Cefn a'r Parch. D. Jacob Davies, Highland Place. Unwaith eto yr oedd yr adeilad yn orlawn a'r ddau bregethwr ar ei gorau glas yn datgan neges Undodiaeth yn ei grym. Mae'r ŵyl fawr drosodd a'r praidd bychan yn unig erbyn hyn, ond yn sicr ni allant ond ymfalchïo wedi clywed am y glendid a'r gwroldeb a fu, a gallant wynebu'r dyfodol yn hyderus gan gyhoeddi yng ngeiriau'r anthem, "We Never Will Bow Down" !

Synfyfyrio ar Adeg y Dathlu.

Gan D. T. Williams.

Hen gapel di-addurn o'r tuallan fel llawer o hen gapeli Cymru yn yr oes o'r blaen ond yr oedd ynddo gannwyll yn goleuo. Dinas ar fryn ydoedd ; heddiw nid yw'r fflam yn llosgi'n loyw. Cofiwn am y bywyd a'r diwydrwydd gynt a'r cyfnod pan oedd eglwysi Undodaidd y Cwm yn cyd-ymroi mewn cymanfa a gŵyl de. Heddiw mae'r drws ar agor, dyna'i gyd. Ein gobaith yw drws agored.

Tuallan mae'r fynwent, hithau'n dweud ei stori, ond y mae'r hanes yn heneiddio bellach fel y cerrig beddau, a'r ysgrifen yn mynd yn aneglur. Eithr gallwn ddarllen enw Tomos Glyn Cothi o hyd —ond pwy sy'n trafferthu bellach ?

Dowch i mewn. Eisteddwch. Nid yw'r seti'n gyffyrddus iawn. Efallai eu bod yn rhy galed i'r oes hon, wn i ddim, ond nid oes cymaint yn dod i eistedd ac oedd. Sêt fawr go anesmwyth sydd yma hefyd. Ai yma y dechreuodd Undodiaid Aberdâr ddioddef oddi wrth *stiff necks* ?

Cryfder eglwys ydyw ei phlant a lle nad oes plant nid oes fawr obaith. Ffromwn yn fawr pan glywir fod y *Four Square Gospellers* am brynnu'r Tŷ Cwrdd, ond a oes gennym raglen i'w achub? Ble mae'r weledigaeth? Ble mae'r proffwyd. Edward Ifan, John Jones, R.J.J. a'r annwyl E. R. Dennis. Yn awr *pwy*?

Paham y mae eglwys ar ôl eglwys o'r eiddom yn methu? Dowlais, Clydach Vale, Cwmbach, Mountain Ash, Cwmgwrach: pob un ohonynt yn diffodd ac achosion eraill a fu'n flodeuog a dylanwadol. Oni ddylem ddarganfod paham, a rhwystro'r drwg cyn elo 'mhellach? Paham na chawsom fwy o ddylanwad ar grefydd yng Nghwm Aberdâr wedi'r holl lafurio gwych? Ai byw i ni ein hunain yw'r bai?

Y mae'r drws yn agored o hyd ond tybed ai dathlu claddedigaeth ynteu genedigaeth a wnaethom. Ein cyfrifoldeb ni yw hynny.

Fy Nhadcu.

Gan Wil Ifan.

Yr adeg y soniaf am dani yr oedd dau batriarch yn trigo ar Fron Iestyn, Aberdâr. Yr enwocaf oedd y Parch. R. J. Jones, M.A., cyn-Weinidog yr Hen Dŷ Cwrdd, llenor coeth ac un o ddysgedigion disgleiriaf Cymru. Ond am y llall a oedd yn byw o fewn can llath iddo y soniaf heddiw, cyfaill mawr i R.J.J. ac un o'i braidd.

Yn wir dyma fe ar y gair yn dod i fyny'r trip gan gerdded yn bur sionc. Dyn byrr â chnwd o wallt gwyn a barf fel eiddo yr hen arwr Kruger. Mae'n fore digon oer ond nid oes faneg am ei law na mwffler am ei wddf. "Y gwaetha' o fenyg a thacle fel'na," meddai, "yw bod yn rhaid cadw atyn' nhw, wedi dechre'; 'rw' i'n rhy hen i ddechre 'nawr." Nid yw ei lygad mor fyw ag y bu, ond hawdd gweld bod cryn ddireidi yn aros ynddo o hyd. Erys i siarad gyda phob un sy'n medru Cymraeg, ond nid oes ganddo fawr amynedd gyda Saeson y "Pentre." Yr oedd yn 89 fis Medi'r flwyddyn y soniaf am dani. Rees Davies yw ei enw, tad fy mam, ac ni chaech fod yn hir yn ei gwmni cyn dysgu mai ym mhlwyf Trelech y ganed ef. Y mae ganddo gôf anghyffredin a phleser yw ei glywed yn adrodd rhamantau bore oes. Teiliwr ydyw wrth ei alwedigaeth er bod y slipwrd yn segur ers rhai blynyddoedd bellach. Wn i ai Twm Nathaniel y prydydd, ei feistr cyntaf, a roddodd y fath awch ar bennill ac englyn yng nghalon Rees Davies.

Yn fuan, fuan ar ôl ei gyfarfod y tro hwn daeth y newydd ei fod yn glaf iawn. Ar y ffordd i'r Capel, ar y trip y soniwyd am dano, cafodd ryw fath o bendro, a syrthiodd gan ei ddolurio'i hunan ; a chariwyd ef adref gan gymdogion caredig. Brysiais i Aberdâr i'w weld, a dyma'i gyfarch gyntaf—"Shwd y'ch chi, Syr ?", a'r "Syr" yn dangos nad oedd yn fy adnabod. Ond pan glywodd fy llais fe wyddai'n iawn pwy oedd gydag ef a chafwyd ymddiddan byr. "Pam y mynech fentro mâs, dadcu, ar nosweth mor oer ?" "Yr oedd Jones yn yr Hen Dŷ Cwrdd, ac 'allwn i byth feddwl am aros adre. 'Rych chi bregethwyr ifenc yn go ddiflas. Rhai ohonoch yn pregethu Saesneg, a'r rhai sy'n dweyd Cymraeg yn dweyd yn rhy isel o un rheswm. 'Rwy'n ffaelu dyall yr iaith wy'n glywed ; ac yn ffaelu clywed yr iaith wy'n ddyall. Onte, am Jones, 'rwy'n 'i *glywed* a'i *ddyall*."

Nos Wener oedd hyn ; fore dydd Mawrth fe ddaeth y llythyr a ofnwn. Bu farw gan dystio bod y Gŵr a garai mor fawr, ei Arglwydd, wedi bod yn ei ystafell, a'i fod yn clywed canu clychau heddwch ; fod y rhyfel ar ben. Claddwyd ef ym mynwent Aberdâr a bydd sôn hir am araith Silyn uwch ben y bedd agored.

Gellid sôn llawer am grefydd-der ei yspryd addfwyn, a'i garedigrwydd i bawb a phopeth, ond wrth gofio am dano, ei droeon digrif sy'n sefyll allan. Dyma un enghraifft nodweddiadol.

Ar brynhawn Sadwrn trymaidd ym mis Gorffennaf yng nghanol y wlad cerddai'r hen ŵr yn araf tua Brynhawen, cartref 'nhad a mam. Goddiweddwyd ef gan gwmni o ddynion wedi bod yn bwrw gwair drwy'r prynhawn. "Faint o ffordd," holai ef, "sydd i'r Cei ?", gan gyfeirio at y Ceinewydd. Edrychodd y dynion arno'n syn, "Mae yna bedair milltir ar ddeg ; '*cherddwch* chi byth yr holl ffordd." "Pedair ar ddeg ! Feddyliais i erioed fod y Cei mor bell ! Ond," meddai, gan gyfeirio ei fys at Brynhawen (ein tŷ ni, lle y bu'n aros droeon, er na wyddai'r dynion ddim am hynny), " 'rwy'n gweld fod 'na ryw dafarn neu'i gilydd fan'co, fe gaf lased o gwrw beth bynnag i'm calonogi ar fy nhaith." "Nage'n wir," oedd eu hateb, a phawb yn tosturio wrth yr hen bererin pwy bynnag oedd e', "nid tafarn yw hwnna ; dyna dŷ'r gweinidog !" Cymerai Rees Davies arno fod yn siomedig dros ben. Pan ddaethai gyferbyn â'r tŷ, meddai un ohonynt wrtho, "Beth pe baech yn galw mewn i weld y pregethwr ? Un dipyn bach yn sarrug yw e' ; ond mae Mrs. Evans yn wraig groesawus dros ben ; a'i *olwg* yntau sy' waetha'. Galwch i fewn, 'rwy'n siŵr y cewch chi ddished o dê, beth bynnag am fwrw'r noswaith."

Ac i mewn ag ef—a'r bobl dosturiol yn arhosach o gwmpas iet y clôs i weld beth a ddigwyddai. Ac aros y buont yn hir ac yna mynd yn ysgafnach eu meddwl o ddeall iddo gael drws agored.

Drannoeth bu'n syn ganddynt weld yr hen ŵr yn y capel, yng nghôr Brynhawen, a mam yn ei gyflwyno iddynt fel "fy nhad."

Dyna un tro o gannoedd. Ymhyfrydai mewn cân a phennill, ond ei bleser mawr oedd gwrando pregeth. Dilynai "gyrddau mawr" pob enwad fel ei gilydd, ond ei arwr oedd R. J. Jones hyd y diwedd.

Gwn nad da ganddo fuasai meddwl am neb yn defnyddio gormodedd wrth ei ganmol yn fyw neu'n farw. Gymaint ei bryder i'r cyfeiriad yma fel y dywedai wrthyf unwaith ei fod wedi paratoi ei fedd-argraff ei hunan—"rhag ofn i neb roi lot o gelwyddau uwch fy mhen." Ac yn wir, ymysg ei bapurau cafwyd tudalen â'r llinellau hyn arni :—

Yma y gorffwys gweddillion
REES DAVIES, Trecynon.
Bu farw a..... b..... 191 .
Wedi brwydro yn yr anial
Fe geir gorffwys yn ddi-atal.

Athrawiaeth y Diwedd.

Gan y Parch. NOEL JAMES, B.A.

HYD y cofiaf, nid oedd gennyf unryw athrawiaeth am y diwedd (eschatology) pan oeddwn yn iau ar wahân i athrawiaeth seciwlar Cynnydd (Progress) fod dyn a'r byd yn ymberffeithio o hyd wrth fynd ymlaen.

Nid fy mai i yn hollol oedd hyn. Nid oedd y dadrithiad ynglŷn â'r syniad o Gynnydd wedi cymryd lle. Neu, efallai, ei fod wedi cymeryd lle ond bod olion ohono o hyd yn aros. Hefyd, ni chaed unrhyw athrawiaeth arall, hyd yn oed o'r pulpud.

Erbyn heddiw, ni allaf gredu bod y byd yma'n gwella ac mai cyfeiriad at berffeithrwydd yw llwybr y ddynoliaeth. Syniad seciwlar, nid Cristnogol, yw Cynnydd ; gwnaeth hanes y ganrif hon y peth yn chwerthinllyd. Erys y broblem, er hynny, i mi : beth yw'r syniad sy gennyf am ddiwedd pethau yn y byd hwn ? Beth fydd helynt dyn a daear ar ddiwedd amser ?

Nis gwn ac ni ŵyr neb. Ond gallaf nodi ychydig o bethau sydd ar fy meddwl. Er enghraifft, ni allaf gredu bod yn rhaid i ddaioni lwyddo yn ein byd ac ni allaf weld bod credu hyn yn anghyson â chrêd mewn Duw. Daw un o ddamhegion y Testament Newydd i'm cof wrth synio ar hyd y llinellau hyn ; honno sy'n crybwyll am yr had da a'r had drwg yn cael eu gadael i gyd-dyfu hyd nes y

daw'r cynhaeaf. Neibuhr, os cofiaf yn iawn, a ddywed fod drygioni yn cyd-redeg â daioni yn ein byd ac fod posibilrwydd o ddrygioni ynghlwm wrth bob dyfais a darganfyddiad.

Arweiniwyd fi yn gynnar i gydnabod nad oedd gan Gristnogaeth fodern unrhyw sicrwydd na syniad pendant am yr hyn a ddigwydd ar ddiwedd Hanes. Deuthum o hyd i'r syniad Gwyddonol hwnnw wedyn, "the universe is running down" gyda'i ganlyniadau : na cheid digon o wrês oddi wrth yr haul i gynnal bywyd ar y ddaear ymhen amser maith, maith. Ac mai dyna fydd y diwedd. Amheuir hyn efallai heddiw : y mae opiniynnau gwyddonol yn cyfnewid o hyd.

Ceir athrawiaeth feseiannaidd yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Ond nid yw yn ffasiynol heddiw nac, hyd y gwyddom, yn wir. (Dywedir fod yr athrawiaeth hon wedi gadael ei hôl ar Karl Marx a'i ddysgeidiaeth, yn fwy o lawer iawn nag y tybiai ef).

Gwrthryfelwr yw'r dyn modern, seciwlar, a gwrthyd yr athrawiaeth o nefoedd yr ochr draw ("pie in the sky when you die" y gelwir hi ganddo) am nefoedd ddaearol, ddi-dduw a di-grefydd. Geiriau Cristnogol, medd un awdur, yw geiriau mawr Gwrthryfel Ffrainc : Rhyddid, Brawdoliaeth, Cyfartaledd, ond, oherwydd crebachu a chyfyngu ar eu hystyr, ni ellir dod o hyd iddynt gyda'i gilydd ; os ceisir un, eir ymhellach oddi wrth y lleill. Er esiampl, ceisiwyd rhyddid yn y ganrif ddiwethaf a chafwyd oes derfysglyd, anghyfartal. Yn y ganrif hon, cyfartaledd yw'r nôd ; po agosaf y deuir iddo, lleihau wna rhyddid. Duw a'n gwaredo, os bydd i ddyn yr unfed ganrif ar hugain amcanu at frawdoliaeth. Nid bod yn sinical yw'r ymgais. Galanas ddaw os gorfodir dynion i fod yn frodyr i'w gilydd, gan Rwsia, yr Unol Daleithiau neu'r Cenhedloedd Unedig.

Cydnabyddir mai athrawiaeth Cynnydd oedd crefydd y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg. Dyma oedd athrawiaeth-y-diwedd y dyn modern, seciwlar, gwrthryfelgar. Edrychwyd i'r un cyfeiriad gan yr Undodiaid (rhan o'm gwaith, debygwn i, mewn eglwys Undodaidd yn Lloegr oedd darbwyllo yr hen aelodau, wedi'u trwytho yn syniadau'r ganrif o'r blaen, ynglŷn a hyn). Meddai Priestley, ymhell cyn Godwin a Darwin :

> Knowledge will be more extended . . . nature and its laws will be more at our command : men will make their situation in this world more comfortable . . . and will daily grow more happy . . . thus whatever was the beginning of this world, the end will be more glorious and paradisaical beyond what our imaginations can conceive.

(Dywedir bod gwaith gwyddonol Priestley wedi bod yn gymorth i ddarganfod y bom atomig).

Yn oes Victoria credwyd mewn Cynnydd gan bobl gyffredin na wyddent air o lyfrau'r athronwyr radical. Dyna ddisgwylid mewn oes o gymaint ddatblygiadau gweithfaol, gwyddonol a meddyginiaethol. Ceid gwreiddyn diwinyddol i'r gred hefyd yn y syniad syml o Ragluniaeth.

Daeth tro ar fyd a syniadau a cheir llyfrau *Brave New World*, Aldous Huxley ac 1984 George Orwell. Nid symud tuag at berffeithrwydd yr ydym, yn ôl rhain, ond at erchylltra. Gwelir yr holl ddyfeisio a darganfod gwyddonol a gwleidyddol yn arwain dyn i drueni. Ac yn nofel *Ape and Essence*, Huxley, byd diffaith yw hwn ar ôl rhyfel y bom atom nesaf a neb yn byw ynddo ond rhyw ychydig sydd a theyrngarwch i bob pydredd ac erchylltra. (Ar derfyn y nofel, ceir llygedyn gobaith : gŵr a gwraig yn penderfynu byw'n wahanol i'r gweddill ac yn eu gadael).

Yr unig rhai o bosibl sy'n edrych ymlaen at fyd gwell yn y dyfodol yw'r Comiwnyddion uniongred. Ni cheir mwyach ar wahân iddynt hwy, obaith yn y dyfodol ym myd seciwlariaeth ein cyfnod ni.

Beth am Gristnogaeth, a pha le y mae Cristnogion yn sefyll ynglŷn a hyn ? Gwir yw geiriau Emily Bronte—

> Though earth and universes ceased to be
> Every existence would exist in Thee.

Er i nef a daear fyned heibio, erys Gwirionedd a Duw. Ni ellir manylion o'r hyn a ddigwydd i'n daear o safbwynt Cristnogol. Digon i'r Cristion fod Duw.

Erys ffydd, gobaith a chariad. Nyni a obeithiwn am mai hynny sydd yn gweddu ini, blant dynion, ag y mae Duw yn ymddiddori ynom ac, yn ôl yr efengyl, yn ein caru. Yn hyn y gorwedd ystyr adnod adnabyddus efengyl Ioan : "Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd Ei unig anedig fab fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ond caffael ohono fywyd tragwyddol.

Marwgofion.

Mrs. MARY ELLEN THOMAS, 10, Gynor Avenue, Ynyshir, Rhondda. Dydd Mawrth, Chwefror 13, 1951 bu farw yr uchod yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg, Church Village. Ganed a magwyd ' Mari Ellen ' yn West Gate, Llanbedr Pont Stephan yn ferch i Mari a Evan Davies. Bu yn byw yn yr Ynyshir am dros ddeugain mlynedd, ond yr oedd ganddi ddiddordeb mawr yn ei hen gartref. Er ei bod yn aelod gyda'r Annibynwyr yr oedd ganddi gysylltiadau agos iawn ymhlith yr Undodiaid. Cefnder iddi ydyw'r Prifathro

J. D. Jones, B.A., B.D., Coleg Caerfyrddin. Adwaenai y mwyafrif o deuluoedd Undodaidd yr ardal, a gallai olrhain eu hachau a'u cysylltiadau yn ddiddorol iawn. Hefyd yr oedd yn ddarllennydd cyson o'r YMOFYNNYDD ers blynyddoedd, ar shâr gydag ysgrifennydd y llinellau hyn. Yn rhyfedd iawn rhifyn Ionor o'r YMOFYNNYDD oedd yr olaf beth a ddarllennodd y Sul cyn ei marw a hwnnw yn cynnwys hanes marw a chladdu llysfam ei hannwyl briod, David Thomas, sef Anne Thomas, Cerdin Cottage, Llwynygroes. Bu yn weddw ers dros ugain mlynedd. Magodd dri mab ac un ferch sydd heddiw mewn safleoedd anrhydeddus, sef Parch. E. M. Thomas, B.A. (Eddie), Ficer Llanwnda, Caernarfon ; Nell, athrawes yn ysgol Islwyn Porth ; Glyn, Athro Celf ym Mryste, ac Alun Thomas, B.Sc., yn un o ysgolion Wanstead, Llundain. Claddwyd yng nghladdfa Gyhoeddus Llethrddu, a'r Parch. Leonard Hugh, M.A., B.D., ei hen weinidog, yn awr o'r Mynydd Bach, ger Abertawe yn gwasanaethu.

MAWRTH 6, ar ôl cystudd byr, DANIEL JONES, annwyl briod Catherine Jones, Pantiorlech, Pontshaen yn 62 oed. Gwanaidd oedd ei iechyd ers blynyddoedd lawer ; blinid ef yn enbyd gan ddiffyg anadl, er hynny ymladdodd hyd y gallai i ddilyn ei waith ar y fferm, a chymerai ddiddordeb mawr ym mhopeth perthynol i'r fferm. Hannai o deulu parchus iawn yn yr ardal—mab ydoedd i'r diweddar Daniel a Jane Jones, Penrhiwcoelau a fuont yn ffyddlon iawn gyda'r achos yn Llwynrhydowen yn eu dydd. Oherwydd gwaeledd ei iechyd anfynych iawn y gallai'r ymadawedig fod yn y gwasanaeth ar y Sul, er hynny dymunai o'i galon lwyddiant yr achos. Yr oedd ei anallu i weithio yn gyson yn boen a blinder iddo—ni allai ddygymod â segurdod. Nodweddion amlwg ei gymeriad oedd darbodaeth, gonestrwydd ac ysbryd cymdogol. Claddwyd y dydd Gwener canlynol yn Llwynrhydowen a gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins, S. E. Bowen a W. M. Jenkins (E), Talgarreg. Cydymdeimlir yn fawr â'i weddw a fu'n rhyfeddol o ffyddlon iddo ar hyd y blynyddoedd, ei dair merch a'i gwŷr a nifer o wyrion, brawd a dwy chwaer na allent fod yn ei angladd yn herwydd gwaeledd iechyd.

MAWRTH 10, EVAN JONES, Llawrcwrt, Talgarreg yn 79 oed. Bron ar hyd ei oes goddefai oddi wrth ddiffyg anadl. Cai'r Asthma yn enbyd ar adegau, ac felly y bu ar y diwedd—wedi cadw ei wely am rai dyddiau ffarwelio dd yn dra sydyn. 'Roedd yn amaethwr deallus a chyfrifol ; ymddiddorai mewn gwartheg a cheffylau ac enillodd lu o wobrwyon mewn arddangosfeydd anifeiliaid. Gŵr gofalus o'i deulu ydoedd a rhyw ddwy flynedd yn ôl dathlodd ef a'i briod eu priodas euraidd drwy roi gwledd o dê i gynulleidfa Capel-y-Fadfa a phlant ysgol Talgarreg. Treuliodd ei oes yn ardal Talgarreg yn fawr ei barch Hyfrydwch ganddo oedd gwneud cymwynas, ac yr oedd yn ddyn o galon dyner, garedig. Cydymdeimlir yn fawr â'i briod sydd wedi gweld nifer o brofedigaethau, ei bedair merch a'u teuluoedd, y ddau fab sydd gartref, a llawer o berthynasau eraill. Pleser oedd bod yn ei gwmni ar ei aelwyd, 'roedd o ysbryd mor hynaws. Daeth tyrfa fawr ynghyd y Mercher

dilynol i hebrwng ei weddillion i fynwent Capel-y-Fadfa, lle gorwedd nifer o'i anwyliaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan H. Ponsford (E), Llandre, hen gymydog i'r teulu ; yn y capel gan E. O. Jenkins a T. Lloyd Jones (A), Tyngwndwn ac ar lan y bedd gan W. M. Jenkins (E), Talgarreg.

MAWRTH 20, ar ôl cystudd maith a chaled MARY, annwyl briod Elias Jones, Aberythan, 1, Pentrellwyn, Llandysul yn 81 oed. Merch ydoedd i'r diweddar David Richards a'i briod, Siop Cwmsychbant, gŵr fu gyda un o'r blaenaf yn cychwyn achos Capel-y-Cwm. Am flynyddoedd cedwid y gwasanaeth mewn storws fach perthynol i'w siop. Ar hyd ei hoes bu hi'n ffyddlon i draddodiadau'r teulu. Tra gallai, mynychai'r gwasanaethau yn y Graig, Llandysul yn bur gyson. Yr oedd gair da iddi gan bawb o'i chydnabod. 'Roedd yn weithgar a diddig a rhoddodd ei gorau i'w theulu. Cydymdeimlir yn fawr â'r priod sydd wedi ei adael yn bur unig, ac yntau'n gwybod beth yw pwysau henaint, a'i ferch a'r wyrion fuont yn rhyfeddol o ofalus ohoni yn ystod ei chystudd blin a maith. Gadawodd hefyd ddwy chwaer, dau frawd a llawer o berthynasau eraill a chyfeillion i wylo'i cholli. Y Gwener dilynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capel-y-Cwm pryd y daeth torf luosog iawn ynghyd i dalu'r gymwynas olaf. Gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins ; S. E. Bowen ; D. S. Davies (E), Bangor Teify ac Elwyn Davies, Myfyriwr. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Evans, New Road, Llandysul.

Newyddion yr Enwad.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd yr ŵyl Dê flynyddol Gwener y Groglith. Rhoddwyd y wledd gan y Cynghorwr Griffith Davies a Mrs. Davies, Clettwr Villa. Er fod y tywydd yn arw a blin yn ystod y dydd cafwyd noson ddi-law a thawel, a daeth tyrfa luosog iawn ynghyd a chafwyd gwledd ardderchog iawn a hwyl fawr drwy'r amser. Ar ôl y te cafwyd rhaglen fer o adrodd a chanu gan y plant a Mr. Elwyn Davies yn arwain. Cyflwynodd yr arolygyddes—Mrs. Evans, Clifton Hill, ar ran yr ysgol Sul, ryw 45 o wobrwyon i'r plant am gadw'r ysgol. Cyflwynwyd diolchgarwch i roddwyr y wledd gan Mrs. Evans, Gwarcwm a Mrs. Evans, Clifton Hill. *D.S.*—Mae teulu ffyddlon arall wedi addaw tê'r flwyddyn nesaf.

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd cwrdd blynyddol y Capel Bach ar ôl cwrdd y bore, Sul, Mawrth 18. Cyfeiriodd y Cadeirydd, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. at y golled fawr a ddioddefodd yr achos o golli'r Dr. D. J. Davies a fu'n ysgrifennydd am bron 40 mlynedd. Dewiswyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn, y cadeirydd, y drysoryddes a'r archwiliwr, sef Mr. W. S. Jones, Miss Getta Jones a Mr. Ifan Jones, fel o'r blaen. Dewiswyd Mrs. Mair Thomas, B.Sc. yn ysgrifenyddes (merch Dr. D. J. Davies), a Mr. T. C. Glover yn Organydd. Y Cadeirydd a Mr. D. Ll. Carellio Morgan a ddewiswyd i

gynrychioli'r capel yng Nghyfarfodydd y Gymdeithas Gymraeg. Adroddwyd fod sefyllfa ariannol yr achos yn ffafriol iawn.

ARIAN AM DDIM OND HOLI.—Gall pob un o'n eglwysi ychwanegu o £30 i £100 at ei chyllid heb ddim cost na llawer o drafferth i'r trysoryddion, os yw'r aelodau sy'n talu 9 swllt y bunt o dreth incwm yn barod i gyfrannu drwy gyfamod (Covenant). Bûm yn disgwyl i'r 'General Assembly' i gyhoeddi manylion ers tro ond ni ddaeth dim ac ni fedraf wneud dim yn well na rhoi peth cyfarwyddyd i'r trysoryddion. Dyma grynodeb o ateb a gafwyd oddi wrth reolwr banc sy'n brofiadol yn y gwaith "... the question of subscription by Covenant is quite a simple matter ... Covenants work out on the following lines: At the end of each year, each person who has signed the Covenant sends a form No. R.185 (obtainable from the Local Tax Office) to the Beneficiary, who submits these forms to the Tax Authorities with a copy of the Covenant, in support of a Tax Rebate Claim. The Tax reclaimed is theoretically that which has been paid by the subscriber in order to earn the amount subscribed. For example, on a subscription of £1/1/0 the beneficiary can claim tax rebate of 9/- in the £, on £1/18/2 = 17/2." Dywedwch fod person yn cyfrannu £5 y flwyddyn at eich capel ac yn talu treth incwm yn ôl naw swllt (petai ddim ond ar un bunt o'i incwm), yna cawsech £4/1/10 o rebate o'r treth incwm a wnai ei gyfraniad yn £9/1/10. *Nid oes raid i neb wybod beth yw incwm yr aelod*, yr unig beth a fydd yn hysbys yw ei fod yn talu yn ôl 9 swllt y bunt. Fe gewch gyfarwyddyd yn y mater gan Reolwr Banc neu gyfreithiwr, neu os methwch ysgrifennwch at Mr. William James, 3, Brondeg Terrace, Aberdâr. Dyma ffurf ar y 'Covenant Deed' y gallwch ei defnyddio—

"I ..... of .....
Hereby Covenant with the Treasurer for the time being of *Highland Place Unitarian Church, Monk Street, Aberdare* that for a period of seven years from the ..... 1951 or during my lifetime, whichever period shall be shorter, I will pay annually to the said church the net sum of ..... such sum to be paid from my general fund of taxed income so that I shall receive no personal or private benefit in either of the said periods from the said sum or any parts thereof.

In witness whereof I have hereunto set my hand and seal this .....
Day of ....., 1951.

Signed, sealed and delivered by the

said.....

in the presence of:

.....

..... *Signature*.....

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

'CREFYDD A GWERINIAETH YN HANES YR HEN DŶ CWRDD ABERDÂR.'

1751—1951.

Dyma lyfr a ddylai fod yn llaw pob Undodwr sy'n ymfalchïo yn ei dreftadaeth gyfoethog. Y mae'n llyfr o ddiddordeb cyffredinol hefyd a'r penodau cyntaf yn rhoi hanes yr hen ymneilltuaeth yn gryno. Yr oedd yr Hen Dŷ Cwrdd yn nythle i lenorion, emynwyr a gwleidyddion a'i wŷr mawr yn wŷr yr enwad. Darllenwch hanes Edward Ifan, Tomos Glyn Cothi, R.J.J. ac eraill o'r cewri yn y llyfr hwn, 85 tud., 6 llun am y pris rhesymol o 3 swllt. Daw parsel i bob cynulleidfa ; prynnwch yn awr ar gyfer rhoddion i'r plant. Gellir cael copïau oddi wrth Edgar Williams, Gelli Villa, Llewelyn St., Trecynon, Aberdâr.

Ysgrifennwyr :

Y Parchn. T. O. Williams a Simon Jones ; Y Mri. W. W. Price a John Thomas.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

CYNHELIR

CYRDDAU'R PASG

YNG NGALLTYBLACA

Dyddiau Mawrth a Mercher, Ebrill 24 a 25, 1951

NOS FAWRTH am 7 o'r gloch—Gwasanaethir gan y Parchn. NOEL JAMES ac E. O. JENKINS.

DYDD MERCHER : 11 a.m.—Pwyllgor.
2 p.m.—Parchn. ISLWYN PRICHARD a J. MARLES THOMAS.
6.30 p.m.—Parchn. D. JACOB DAVIES a'r Prifathro J. D. JONES.

CROESO CYNNES I BAWB.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.



HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT :-: BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING
TUBULAR HEATERS
ORGAN BLOWERS
LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS, MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES, REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

Phone—3137

WATCHMAKERS
. . JEWELLERS . .
SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to Engagement and Wedding Parties.

LARGE SELECTIONS OF CUPS AND MEDALS.

1, Wind Street
Llandyssul . . . . Cards.